Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2026/27

## Canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2026





Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2026/27

## Canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2026

**Awdur:**
**Lucy Yarham**

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**


JANUARY

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n bwriadu astudio cwrs addysg uwch israddedig amser llawn neu ran-amser yn 2026/27. Mae’r canllaw hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Gall cymorth ariannol myfyrwyr helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Mae **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn asesu eich cymhwysedd am gyllid, ac mae’r **Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr** yn gwneud taliadau ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i chi (ar gyfer costau byw) neu i’ch darparwr (ar gyfer ffioedd dysgu).

Mae’r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn gymhleth, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd ‘fel arfer’ yn cael ei ddefnyddio’n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw mai canllaw cyffredinol yw’r ddogfen hon, ac nid yw’n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael pob math o gymorth yn y canllaw hwn, neu’r uchafsymiau a ddangosir, gan ddibynnu ar amgylchiadau eich aelwyd a’ch man astudio.

Mae gan Ymchwil y Senedd ganllaw ar gyfer cymorth ariannol i **fyfyrwyr ôl-raddedig** ac i fyfyrwyr mewn **addysg bellach**.

*Ymwadiad: Mae pobl yn holi Ymchwil y Senedd yn rheolaidd ynghylch cyllid myfyrwyr ac mae’r canllaw hwn yn nodi gwybodaeth am rai o’r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi’i deilwra i’ch sefyllfa unigol.*

**Ni all Ymchwil y Senedd roi cyngor ar achosion nac amgylchiadau unigol. I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth, cysylltwch â Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

# Cynnwys

**1. Meini prawf cymhwysedd ... 8**

Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth ... 8

Myfyrwyr rhyngwladol ... 9

Eich cwrs ... 9

Eich prifysgol neu eich coleg ... 9

Eich oedran ... 10

Eich astudiaethau blaenorol ... 10

**2. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu ... 11**

Prifysgol a cholegau ... 11

Bwrsariaeth y GIG ... 11

Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ... 12

**3. Amser llawn: help gyda chostau byw ... 13**

Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth ... 13

Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth ... 14

**4. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser ... 15**

Ffioedd dysgu ... 15

Costau byw ... 15

**5. Rhagor o gymorth ariannol ... 17**

Grantiau dibynyddion ... 17

Grant gofal plant ... 17

Lwfans Dysgu i Rieni ... 18

Grant oedolion dibynnol ... 18

Lwfansau myfyrwyr anabl ... 18

Grant teithio ... 19

Cymorth arbennig ... 19

Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau ... 20

Dawns, drama a cherdd ... 20

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ... 20

Teithio rhatach....................21

# 1. Meini prawf cymhwysedd

Mae'r **rheolau'n ymwneud â chymhwysedd yn gymhleth**. Canllaw cyffredinol yn unig yw hwn felly nid yw'n cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau posibl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cymhwysedd, dylech gysylltu â **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn uniongyrchol.

Yn gyffredinol, mae cymhwysedd yn dibynnu ar ffactorau fel:

- Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- Eich cwrs;
- Eich prifysgol neu eich coleg;
- Eich oedran;
- Eich astudiaethau blaenorol.

## Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys, mae angen i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â statws preswylydd sefydlog;
- yn byw yng Nghymru fel arfer; a hefyd
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os na fyddwch yn bodloni'r tri amod hyn, efallai eich bod yn dal i fod yn gymwys i wneud cais am gymorth, er enghraifft:

- os ydych yn wladolyn yr UE ac â statws preswylydd sefydlog;
- yn ffoadur; neu
- o dan ddiogelwch dyngarol.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd** yn seiliedig ar genedligrwydd a phreswyliad.

### Myfyrwyr rhyngwladol

Sylwch na ddylai unrhyw beth yn y canllaw hwn gael ei ystyried yn gyngor ar fewnfudo. Mae cyngor ar fewnfudo wedi'i reoleiddio'n llym a dim ond **cynghorwyr sydd wedi'u cofrestru** neu gorff proffesiynol cymeradwy sy'n gallu ei gynnig.

Yn aml, mae gan ddarparwyr addysg uwch swyddfa ryngwladol, a all helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich amgylchiadau penodol.

Hefyd o ddiddordeb efallai - mae Cyngor y DU dros Faterion Myfyrwyr Rhyngwladol (**UKCISA**) yn cyhoeddi gwybodaeth am **statws myfyrwyr cartref ar gyfer Cymru**, ac mae ganddynt **fanylion cyswllt ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol** gyda chwestiynau am eu cymhwysedd i gael cymorth.

## Eich cwrs

Rhaid i'ch **cwrs** fod wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r cyrsiau cymwys yn cynnwys:

- gradd gyntaf;
- gradd sylfaen;
- Tystysgrif addysg uwch;
- Diploma addysg uwch;
- Tystysgrif Genedlaethol Uwch;
- Diploma Cenedlaethol Uwch;
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR);
- cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'ch **darparwr** naill ai:

- gael ei ariannu gan y llywodraeth; neu
- gael ei ariannu'n breifat ond yn cynnal cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **rhestr o gyrsiau mewn darparwyr preifat** sydd wedi’u cymeradwyo’n benodol ar gyfer cyllid myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Cysylltwch â’ch prifysgol neu eich coleg os nad ydych yn siŵr a yw eich cwrs yn gymwys i gael cymorth ariannol.

## Eich oedran

Nid oes **terfyn oedran** er mwyn bod yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu, ond rhaid i chi fod o dan 60 oed i fod yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth.

## Eich astudiaethau blaenorol

Fel arfer dim ond cymorth ariannol ar gyfer eich **cwrs** addysg uwch cyntaf y gallwch ei gael. Ceir rheolau cymhleth ar yr hyn y mae gennych hawl iddo os ydych yn ystyried dilyn cwrs sydd â lefel gyfatebol i un rydych wedi’i ddilyn eisoes, p’un a ydych wedi’i gwblhau ai peidio. Mae’r rheolau hyn yn gymwys i gyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Os ydych eisoes wedi dilyn cwrs addysg uwch ar lefel israddedig, dylech siarad â Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn penderfynu a fyddwch yn dechrau cwrs newydd. Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru allu rhoi cyngor i chi ynghylch a ydych chi'n gymwys i gael cyllid a gweld a yw'ch amgylchiadau'n dod o dan un o'r 'categorïau eithrio', fel cwrs addysg gychwynnol i athrawon neu feddygaeth a deintyddiaeth.

# 2. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu

Mae faint o **fenthyciad ffioedd dysgu** y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar gost y cwrs a ble rydych am astudio. Nid yw'n seiliedig ar incwm eich aelwyd.

Telir y benthyciad ffioedd dysgu yn uniongyrchol i'r sefydliad lle rydych yn astudio. Mae'n rhaid ichi ei ad-dalu, plws llog, ar ôl ichi orffen neu adael eich cwrs.

Mae rheolau cymhleth ynglŷn â faint y bydd rhaid i chi ei dalu'n ôl os byddwch yn gadael eich cwrs cyn ei gwblhau. Dylech gadarnhau gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am hyn.

## Prifysgol a cholegau

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a reoleiddir, a ariennir yn gyhoeddus, gallant godi hyd at £9,790 y flwyddyn mewn ffioedd dysgu.

Mae dau brif wahaniaeth os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat:

1. Nid oes cyfyngiadau ar y ffioedd dysgu y gallant eu codi arnoch.
2. Mae swm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn llai na phe baech yn mynd i brifysgol neu goleg cyhoeddus. Mae hyn yn golygu, os byddant yn codi ffioedd sy'n fwy nag uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gallwch ei gael, y bydd rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hunan.

Pan fyddwch yn astudio gyda'r math hwn o ddarparwr, dim ond os yw eich cwrs wedi'i gymeradwyo, neu ei 'ddynodi' gan Lywodraeth Cymru y gallwch gael benthyciad ffioedd dysgu. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi rhestr o **gyrsiau sydd wedi'u dynodi ar gyfer cymorth**.

## Bwrsariaeth y GIG

Os ydych yn dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster mewn gofal iechyd, meddygaeth neu ddeintyddiaeth, mae'n bosibl y gallwch gael **bwrsariaeth gan GIG Cymru**. Mae Bwrsariaeth y GIG yn cael ei hasesu a thelir amdani gan **Gynllun Bwrsariaeth y GIG,** nid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Dylech gysylltu â **Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru** am ragor o wybodaeth.

## Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol

Os ydych yn dilyn cwrs gradd israddedig cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol, gallwch wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, gallwch gysylltu â **Thîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau Gofal Cymdeithasol Cymru**.

# 3. Amser llawn: help gyda chostau byw

Mae help gyda chostau byw yn fwy cymhleth na Benthyciadau Ffioedd Dysgu. Mae incwm eich aelwyd yn cael ei ystyried, ond dim ond i benderfynu ar y rhaniad rhwng y grant cynhaliaeth a'r benthyciad i'w ad-dalu – nid ar gyfer penderfynu ar yr uchafswm y gallwch ei gael.

## Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth

Mae **cydbwysedd y grant a'r benthyciad** rydych yn eu cael ar gyfer costau byw yn seiliedig ar incwm eich aelwyd, lle byddwch yn astudio ac yn byw.

Gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr gael grant am o leiaf £1,020, nad oes rhaid ei dalu'n ôl. Ar ôl hynny, mae gweddill eich cymorth costau byw yn cynnwys y benthyciad cynhaliaeth, y mae angen i chi ei ad-dalu.

Gallwch gael help ychwanegol mewn amgylchiadau penodol, megis os oes gennych ddibynyddion. Esbonnir hyn yn ddiweddarach yn y canllaw.

Bydd swm blynyddol cyffredinol y cyllid y gallwch ei gael yn gymysgedd o grant cynhaliaeth, ynghyd â'r benthyciad cynhaliaeth os hoffech ei gael. Caiff hyn ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddechrau pob tymor, ond dim ond ar ôl i chi gofrestru ar gyfer eich cwrs ac ar ôl i'ch darparwr gadarnhau eich presenoldeb.

Y benthyciad a'r grant cyfunol uchaf y byddwch yn ei gael yn **2026/27** yw:

- £10,685 os ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- £12,590 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn rhywle y tu allan i Lundain;
- £15,720 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn Llundain.

Mae'r balans rhwng y grant a'r benthyciad sy'n gwneud y cyfansymiau hyn yn dibynnu ar incwm eich cartref. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **tablau gydag amcangyfrifon o faint o fenthyciad a grant y gallech ei gael**.

**Codir llog arnoch ar gyfer eich benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu** o'r diwrnod cyntaf y telir yr arian i'ch cyfrif banc nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo.

## Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth

Os ydych chi wedi cymryd benthyciad cynhaliaeth ar gyfer cwrs israddedig amser llawn ers blwyddyn academaidd 2010/11, gallai Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o'ch dyled. Mae hyn yn cael ei gymhwyso yn fuan ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciad gael ei wneud, ac fe'i dangosir fel arfer ar y datganiad benthyciadau myfyrwyr nesaf.

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cyfrifo faint fydd yn cael ei ddidynnu o'ch benthyciad. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **cyngor Llywodraeth Cymru ar y polisi dileu rhannol.**

# 4. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser

Ar gyfer cyrsiau israddedig rhan-amser, mae'r pecyn cymorth cynhaliaeth yn fersiwn pro rata o'r pecyn amser llawn uchod. Er enghraifft, os ydych chi'n astudio 50% o amser cwrs amser llawn, rydych chi'n cael y ganran gyfatebol o gymorth ariannol.

## Ffioedd dysgu

Fel cyrsiau amser llawn, mae uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael. Nid yw hyn yn dibynnu ar incwm eich aelwyd.

Fodd bynnag, rhaid i ddwysedd y cwrs rydych yn dewis ei ddilyn fod o leiaf 25 y cant i gael benthyciad ffioedd dysgu. Ystyr dwysedd y cwrs yw canran yr amser rydych yn astudio o'i gymharu â chwrs amser llawn. Gall dwysedd cyrsiau rhan-amser fod yn 25, 50 neu 75 y cant.

Mae uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr yn 2026/27 wedi'i nodi yn y tabl isod.

| Lleoliad astudio | Benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn 2026/27 |
|---|---|
| Prifysgol neu goleg yng Nghymru, neu'n astudio yn y Brifysgol Agored | £2,875 |
| Prifysgol neu goleg cyhoeddus tu allan i Gymru | £7,335 |
| Prifysgol neu goleg preifat tu allan i Gymru | £4,895 |

*Ffynhonnell:* Cyllid Myfyrwyr Cymru

## Costau byw

Yn debyg i fyfyrwyr amser llawn, gall myfyrwyr rhan-amser gael help gyda'u costau byw ar ffurf grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau fesul blwyddyn, gyda'r rhaniad rhwng grant a benthyciad wedi'i bennu gan incwm eich aelwyd.

Ar gyfer **costau cynhaliaeth**, yn debyg i gwrs amser llawn, gall myfyrwyr gael cyfuniad o grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Bydd swm y grant a'r benthyciad rydych chi'n ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a dwysedd eich cwrs.

Rhaid i fyfyrwyr rhan-amser fod yn astudio ar ddwysedd cwrs o 25 y cant o leiaf i gael grant a benthyciad ar gyfer costau byw a benthyciad ffioedd dysgu.

I fyfyrwyr rhan-amser, mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **tablau gydag enghreifftiau dangosiadol o swm y benthyciad a'r grant** y gallai myfyriwr ei gael.

# 5. Rhagor o gymorth ariannol

Mae grantiau ychwanegol ar gael i'ch helpu os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu bod arnoch angen cymorth ychwanegol. Mae'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn wahanol.

Mae'r rhain oll ar ben unrhyw hawl i fenthyciad ffioedd dysgu a benthyciadau a grantiau cynhaliaeth.

## Grantiau dibynyddion

Mae'r rhain ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol neu oedolion dibynnol. Maent ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwrs.

### Grant gofal plant

Mae **Grant Gofal Plant** ar gael i helpu i dalu costau gofal plant os ydych chi'n fyfyriwr israddedig sydd â phlant o dan 15 oed (neu o dan 17 oed os oes ganddyn nhw anghenion addysgol arbennig).

Gall y grant dalu cyfran o'ch costau gofal plant hyd at uchafswm fesul wythnos. Yn 2026/27, mae hyn yn £196 ar gyfer un plentyn dibynnol ac yn gyfanswm o £335 os oes gennych ddau neu fwy o blant dibynnol. Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, bydd y swm y gallech ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs.

Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant hwn os byddwch chi:

- yn hawlio'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol;
- yn cael gofal plant di-dreth gan Cyllid a Thollau EF;
- yn talu perthynas i ofalu am eich plentyn;
- Neu os yw eich partner yn cael cyllid gan y GIG.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau o gyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Gofal plant am ddim

Gall rhieni plant rhwng 3 a 4 oed fod yn gymwys i gael cymorth gofal plant pellach gan Lywodraeth Cymru o dan y **Cynnig Gofal Plant**. Efallai y bydd rhieni cymwys yn gallu cael **30 awr o ofal plant am ddim am hyd at 48 wythnos** y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am ofal plant ar gael gan y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**.

### Lwfans Dysgu i Rieni

Gall y **Lwfans Dysgu i Rieni** dalu rhai o'r costau ychwanegol a allai fod gennych os ydych chi'n fyfyriwr israddedig sydd â phlant.

Mae faint y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, incwm eich dibynyddion ac a oes gennych bartner ai peidio. Nid oes rhaid i chi ei dalu'n ôl. Mae'r swm y gall myfyrwyr rhan-amser ei gael yn seiliedig ar ddwysedd eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau o gyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Grant oedolion dibynnol

Gall y **Grant Oedolion Dibynnol** dalu rhai o'r costau ychwanegol a allai fod gennych os ydych chi'n fyfyriwr israddedig gydag oedolyn sy'n dibynnu arnoch chi'n ariannol, oni bai eu bod nhw'n ŵr, yn wraig neu'n bartner i chi.

Mae faint y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, incwm eich dibynnydd ac a oes gennych bartner ai peidio. Os ydych chi'n fyfyriwr rhan-amser, bydd y swm y gallwch ei gael yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar ddwyster eich astudiaethau.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau o gyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Lwfansau myfyrwyr anabl

Mae **Lwfansau Myfyrwyr Anabl** yn ffynhonnell arall o gyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sydd ag anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd meddwl, salwch tymor hir neu unrhyw anabledd arall.

Nid yw'r lwfans yn dibynnu ar incwm eich aelwyd ac nid oes angen i chi ei ad-dalu. Gellir defnyddio hwn i dalu costau offer arbenigol, cynorthwyydd anfeddygol, a chostau mwy cyffredinol sydd gennych.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau'r cyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** sydd hefyd yn cyhoeddi **canllaw ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl**.

## Grant teithio

Os ydych yn mynd i leoliad gwaith fel rhan o'ch cwrs gofal iechyd yn y DU neu'n astudio dramor fel rhan o'ch cwrs, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael **grant i'ch helpu i dalu costau teithio**.

Gall y grant teithio helpu tuag at gostau teithio i'ch cartref ac yn ôl ac os yw eich lleoliad gofal iechyd yn digwydd yn y DU.

Os ydych chi'n astudio dramor, gallwch chi hawlio am:

- Hyd at dair taith dwy ffordd y flwyddyn rhwng y DU a'r brifysgol neu'r coleg dramor; ac
- Yswiriant meddygol a fisâu teithio.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau o gyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cymorth arbennig

Mae'r **grant cymorth arbennig** ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n cael budd-daliadau penodol yn ymwneud ag incwm, a'i ddiben yw helpu gyda'r gost o brynu llyfrau ac offer ar gyfer eu cyrsiau a chostau teithio.

Os ydych chi'n gymwys, byddwch chi'n cael cyfradd uwch o fenthyciad cynhaliaeth, a gaiff ei ddyfarnu gyda'r grant cynhaliaeth. Mae'r swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a ble rydych chi'n byw ac yn astudio. Mae'n rhaid ad-dalu eich benthyciad cynhaliaeth, ynghyd â llog.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau o gyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau

Mae holl brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill y DU) yn cynnig rhyw fath o gymorth ariannol dewisol. Mae'r cynlluniau hyn yn defnyddio enwau gwahanol, ond maent yn cynnwys cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

Maent at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gwobrwyo rhagoriaeth academaidd neu ragoriaeth arall a chefnogi myfyrwyr gyda chostau byw neu drafferthion ariannol. Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am rai cyn i chi ddechrau, a dim ond ar ôl i chi ddechrau eich astudiaethau y mae eraill ar gael. Mae rhai yn grantiau ac mae'n rhaid ad-dalu rhai eraill.

Bydd meini prawf cymhwysedd a rheolau eraill yn dibynnu ar y sefydliad unigol sy'n cynnig unrhyw gynllun o'r fath. Dylech gysylltu â'ch darparwr yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ac i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael.

Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn cyn i chi ddechrau eich cwrs oherwydd efallai bod cymorth ychwanegol y gallech ei gael yn ystod eich blwyddyn gyntaf.

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae cynllun DaDA ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 23 oed, sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a ble rydych chi'n byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer cyrsiau dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Gellir defnyddio bwrsariaeth i dalu ffioedd dysgu, dosbarthiadau a chostau eraill.

## Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig nifer o **ysgoloriaethau i fyfyrwyr** sy'n dilyn o leiaf ran o'u cwrs prifysgol yn Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau a'r gofynion cymhwysedd ar gael ar ei wefan.

## Teithio rhatach

Os ydych chi'n 16-21 oed ac yn byw yng Nghymru gallwch wneud cais am **Fy Ngherdyn Teithio**. Gall Fy Ngherdyn Teithio helpu'r rhai sydd rhwng 16 a 21 oed i gael 30% oddi ar docynnau bws wythnosol, misol neu flynyddol.